# CA3 Cymraeg – Cyflwyniad llafar

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

Yr enghraifft gyntaf sydd orau oherwydd:

- mae’n cynnwys cwestiynau rhethregol, sydd yn pigo cydwybod y gynulleidfa yn syth, ee:
    - ‘Tybed beth yw eich barn chi?’
    - ‘Tybed a ydych chi’n cytuno gyda mi fod y weithred o hela llwynog yn un hynod o farbaraidd a chreulon?’

- mae'n ailadrodd er mwyn pwysleisio’i fwriad, ee:
    - mae’r gair ‘tybed’ yn cael ei ddefnyddio ddwywaith ar ôl ei gilydd

- mae'n rhestru, sy’n cryfhau yr hyn mae’n ei ddweud, ee:
    - mae’r cwestiynau rhethregol yn cael eu rhestru un ar ôl y llall

- mae’r siaradwr yn cyfarch y gynulleidfa ac yn siarad yn uniongyrchol gyda nhw, ee:
    - ‘annwyl gyfeillion’
    - ‘cewch’
    - ‘ydych chi’

 © BBC